**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Rhagfyr 2011**

**ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU GWAITH GWEINYDDOL**

**Adroddiad gan Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Cynghori'r Aelodau ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer darparu cefnogaeth weinyddol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Y Cefndir

2 Ar 1af Ebrill 2011, cafodd Strwythur yr Adolygiad o Swyddogion ei gyflwyno yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd y gwaith ar ddatblygu'r strwythur newydd wedi tynnu sylw at y ffaith fod rhaid i bob swyddogaeth o fewn y Gwasanaeth, os oedd y strwythur newydd yn mynd i lwyddo, gael y lefel iawn o gefnogaeth – yn enwedig cefnogaeth weinyddol

3 Er mwyn penderfynu a oedd y lefel angenrheidiol o gefnogaeth ar gael, trefnwyd adolygiad i edrych ar y gwahanol swyddogaethau a rolau gweinyddol yn y Gwasanaeth.

4 Roedd yr adolygiad yn edrych ar:

- Gefnogaeth Weinyddol gyfredol Strwythur yr Ochr Weithredol er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Strwythur newydd yr Ochr Weithredol a ddechreuodd yn Ebrill 2011;
- baich gwaith Rheolwyr Gwylfa'r System Dyletswydd yn ôl y Galw;
- y gofynion o ran cefnogaeth weinyddol yn y strwythur newydd yr ochr weithredol, a chynnal trafodaethau gydag Uwch Reolwyr, yn enwedig Rheolwyr Maes, er mwyn canfod eu barn;
- yr holl rolau gweinyddol yn y Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod cydnerthedd, ac nad oes yr un rôl yn cael ei than-ddefnyddio.

## Gwybodaeth

5 Roedd yr Adolygiad yn edrych ar ddarpariaeth gyfredol y Gwasanaeth o ran cefnogaeth weinyddol i adrannau unigol, ac yn arbennig, yn edrych yn agos ar y gwaith gweinyddol a wneir gan Reolwyr Gwylfa'r System Dyletswydd yn ôl y Galw fel un o ofynion eu rôl.

6 Roedd Adolygiad cyffredinol yn canolbwyntio ar ddau faes – y cyntaf yn canolbwyntio ar y dyletswyddau gweinyddol y mae pob rôl yn ymgymryd â hwy. Roedd yn sefydlu a oedd pob rôl yn gyfyngedig i'r adran benodol honno ynteu a oes cyfle i gyfuno'r sgiliau hynny heb effeithio ar y gofynion rôl-benodol sydd ynghlwm wrth y swyddogaeth honno. Yn y dyfodol, byddai hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i greu cydnerthedd ar adegau o salwch a gwyliau blynyddol.

7 Roedd ail ran yr Adolygiad yn canolbwyntio ar waith gweinyddol y System Dyletswydd yn ôl y Galw a wneir gan Reolwyr Gwylfa'r System honno; yn arbennig, gallu cyfredol Gweinyddwyr Gweinyddol yn Swyddfeydd Diogelwch y Siroedd, a hynny er mwyn gweld a allai gweinyddydd penodol ymgymryd â rhannau o'r gwaith gweinyddol sy'n ddisgwyliedig gan Reolwyr Gwylfa'r System Dyletswydd yn ôl y Galw. Yn y gorffennol, mae Rheolwyr Gwylfa wedi mynegi pryder ynglŷn â faint o waith gweinyddol y mae disgwyl iddynt ei gyflawni.

## Gwerthuso

8 Mae dau gynllun peilot ar waith ers 5 mis: mae swydd Gweinyddydd y System Dyletswydd yn ôl y Galw wedi cael ei gwerthuso yn Ynys Môn; ynghyd â chyfuno staff gweinyddol ar safle'r Rhyl. Mae'r trefniadau arfaethedig newydd wedi gweithio'n dda, a'r bwriad yw cyflwyno'r trefniadau newydd gan ddod i rym ar 1af Ebrill 2012. (Gweler atodiad 1)

## Gweithredu

9 Mae'r staff y mae hyn yn effeithio arnynt, ynghyd â'r undebau llafur, wedi cael yr wybodaeth angenrheidiol, gyda phwyslais arbennig ar y trefniadau gweithio newydd (adleoli, newid oriau, ayyb), ac mae opsiynau (ymddeoliad cynnar, ymddiswyddo

gwirfoddol ayyb) ar gael os ydynt yn dewis peidio â gwneud cais am yr un o'r swyddi newydd.

10 Bydd y staff gweinyddol yn cael cyfle i wneud cais am y swyddi diwygiedig. Os byddant yn dewis peidio â gwneud cais, bydd y swyddi'n cael eu hysbysebu drwy'r Gwasanaeth yn gyntaf. Yna, os bydd y swyddi heb gael eu llenwi, byddant yn cael eu hysbysebu'n allanol.

11 Y bwriad yw cwblhau'r broses Adnoddau Dynol a recriwtio erbyn 1af Ebrill 2012.

**Argymhelliad**

12 Bod yr Aelodau'n nodi'r trefniadau diwygiedig ar gyfer darparu cefnogaeth weinyddol.

**<u>Atodiad 1</u>**

Chwe swydd Gweinyddydd RDS, yn dechrau ar 1af Ebrill 2012, i'w lleoli yn y mannau canlynol:

| **Ardal Ddaearyddol** | **Gweinyddydd RDS i'w lleoli yn:** |
|---|---|
| Conwy/Sir Ddinbych | 1 yn Swyddfa Sir Gonwy<br>1 yn Swyddfa Sir Ddinbych |
| Wrecsam/Sir y Fflint | 1 yn Swyddfa Sir Wrecsam |
| Gogledd Gwynedd/De Gwynedd/Ynys Môn | 1 yn Swyddfa Sir Gogledd Gwynedd<br>1 yng Ngorsaf Dân Dolgellau<br>1 yn Swyddfa Sir Ynys Môn |

Gweddill y staff gweinyddol sirol i'w lleoli fel a nodir isod:

| **Ardal Ddaearyddol:** | **Cynorthwywyr Gweinyddol Diogelwch Sirol i'w lleoli yn:** |
|---|---|
| Conwy/Sir Ddinbych | 2 yn Swyddfa Sir Gonwy |
| Wrecsam/Sir y Fflint | 2 yn Swyddfa Sir Wrecsam |
| Gogledd Gwynedd/De Gwynedd/Ynys Môn | 2 yn Swyddfa Sir Gogledd Gwynedd (Caernarfon) |

Mae'r cynllun peilot yn y Rhyl yn ymgorffori'r gweinyddwyr o:

Diogelwch Tân Cymunedol
Diogelwch Tân Deddfwriaethol
Swyddfa Diogelwch Sir Ddinbych

Mae yna bedwar aelod o staff yn gwneud y tair swydd uchod ac maent hefyd yn gweithio system rota i sicrhau fod rhywun ar dderbynfa Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.